BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# AROLWG O FFINIAU AANEDDIADAU

Tachwedd 2025



## PAPUR CEFNDIR - BP46

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Crynodeb Gweithredol**

i. Mae'r papur cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r polisïau a'r dyraniadau safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Adneuo. Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun neu ynghyd â phapurau cefndir eraill i gael dealltwriaeth ehangach o'r materion defnydd tir sy'n wynebu Bro Morgannwg.

ii. Mae ffiniau aneddiadau yn gwahanu'r ardaloedd trefol diffiniedig oddi wrth gefn gwlad agored ac maent yn hanfodol ar gyfer rheoli datblygiadau. Nod Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yw canolbwyntio datblygiadau o fewn ardaloedd trefol presennol a chyfyngu ar gwmpas datblygiadau mewn ardaloedd cefn gwlad. Mae ffiniau aneddiadau yn dangos i bobl lle mae datblygiad yn cael ei ystyried yn dderbyniol a lle nad yw'n cael ei ystyried yn dderbyniol, er y bydd angen ystyried ystyriaethau perthnasol eraill.

iii. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cefnogi'r angen hwn am ffiniau aneddiadau ac yn cynnwys polisi sy'n sefydlu'r angen am ffiniau aneddiadau ac felly'n gosod y cyd-destun polisi ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae hefyd yn cynnig arweiniad ar raddfa a lleoliad datblygiadau newydd.

iv. Y ffiniau aneddiadau a adolygwyd yn y papur hwn yw'r rhai a nodwyd ar gyfer CDLl fabwysiedig Bro Morgannwg yn 2017, felly mae angen adolygu'r rhain. Mae adolygiad systematig wedi'i gynnal o bob un o'r ffiniau. Mae methodoleg wedi'i bennu i nodi rhestr o resymau dros newidiadau i lywio lle dylid gwneud diwygiadau a rhoi cyfiawnhad. Mae'r aneddiadau sydd wedi cael newidiadau i'w ffiniau wedi'u rhestru yn Atodlen 1 ar y dudalen ganlynol.

v. Cynigiwyd un newid o ran ffiniau aneddiadau fel rhan o gyflwyniad safle ymgeisiol ar gyfer y CDLlN i Ddinas Powys. Fodd bynnag, nid yw'r newid hwn yn cael ei ystyried yn addas nac yn rhesymol gan y Cyngor ac felly nid yw'n cael ei gynnwys fel newid yn y papur hwn.

| Atodlen 1: Crynodeb o'r newidiadau yn ôl anheddiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Hierarchaeth Aneddiadau** | **Adolygiad o Ffiniau Aneddiadau** | **Diwygiad Arfaethedig** | **Dim newid** |
| ***Anheddiad Allweddol*** | Y Barri | ☑ | |
| ***Canolfan Gwasanaeth*** | Y Bont-faen | ☑ | |
| | Llanilltud Fawr | ☑ | |
| | Penarth | ☑ | |
| ***Prif Aneddiadau*** | Dinas Powys | ☑ | |
| | Y Rhws | ☑ | |
| | Sain Tathan | ☑ | |
| | Llandochau (Penarth) | ☑ | |
| | Sili | ☑ | |
| | Gwenfô | ☑ | |
| | Y Wig | ☑ | |
| | Croes Cwrlwys | ☑ | |
| ***Aneddiadau Gwledig Bach*** | Aberddawan (Dwyrain) | ☑ | |
| | Aberthin | ☑ | |
| | Tresimwn | | ☑ |
| | Tregolwyn | ☑ | |
| | Corntwn | | ☑ |
| | Ewenni | ☑ | |
| | Fferm Goch | ☑ | |
| | Craig Pen-llin | ☑ | |
| | Llancarfan | | ☑ |
| | Llandŵ | ☑ | |
| | Llan-faes | | ☑ |
| | Llyswyrny | ☑ | |
| | Aberogwr | | ☑ |
| | Pendeulwyn | | ☑ |
| | Pen-llin | | ☑ |
| | Llanbedr-y-fro | ☑ | |
| | Tresigin | | ☑ |
| | Saint-y-brid | ☑ | |
| | Sain Nicolas | ☑ | |
| | Tre-os | ☑ | |
| | Ystradowen | ☑ | |

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

